**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-924
Ein cyf/Our ref JMEWL/01203/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

23 Mehefin 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Mehefin ynglŷn â Deiseb (P-05-924) ynghylch llysgenhadon llesiant mewn ysgolion. Rwy'n nodi bod y ddeiseb hon wedi ei chyflwyno'n wreiddiol yn 2019 a bod y Gweinidog Addysg blaenorol wedi ysgrifennu atoch ar y pryd yn amlinellu'n cynlluniau i gefnogi llesiant a herio bwlio. Yn dilyn eich cyfarfod ar 23 Mai, rydych bellach yn ceisio diweddariad ar y gweithgarwch hwn ac yn benodol a yw'r canllawiau gwrth-fwlio a'r fframwaith dull ysgol gyfan yn eu lle.

Mewn perthynas â herio bwlio, mae cyfres o ganllawiau 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb' Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, ac awdurdodau lleol er mwyn cynorthwyo i fynd i'r afael ac atal bwlio ac aflonyddu mewn lleoliadau addysg. Mae'r rhain yn cael eu hategu gan hyfforddiant gwrth-fwlio ar gyfer arweinwyr, ymarferwyr a llywodraethwyr ysgolion, sy'n rhoi'n canllawiau gwrth-fwlio ar waith ac yn cael ei ddarparu gan ddwy elusen gwrth-fwlio amlwg – Anti-Bullying Alliance a Kidscape. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddiweddaru ein canllawiau gwrth-fwlio erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf. Byddwn yn adeiladu ar y canllawiau hyn ymhellach drwy weithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru dros y misoedd nesaf, i wrando ar brofiadau bywyd plant a phobl ifanc, yn ogystal â phrofiadau'n hathrawon a'n hymarferwyr addysg.

O ran ein dull ysgol gyfan, ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol. Canllawiau statudol yw'r fframwaith ac mae'n sicrhau dulliau cyson i ysgolion adolygu eu hanghenion llesiant; gosod strategaethau i gynyddu eu cryfderau a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau, ac yn adolygu gweithgarwch. Mae'r fframwaith yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd a fydd, o fis Medi 2022 ymlaen, yn cynnwys Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, sy'n sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn canolbwyntio ar iechyd a lles dysgwyr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn sicrhau bod y Fframwaith Dull Ysgol Gyfan yn cael ei weithredu'n effeithiol, ar y cyd â'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, rwyf wedi cytuno i sicrhau bod £12.2 miliwn ar gael eleni, fel rhan o gyfanswm o dros £43 miliwn dros y tair blynedd nesaf, yn arbennig i gefnogi llesiant mewn ysgolion. Mae peth o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r broses o roi cydlynwyr ar waith, wedi eu cefnogi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a'u sefydlu yn y Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, fydd yn cefnogi ysgolion i sefydlu'r Fframwaith. Mae cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i wella ac ehangu darpariaeth cwnsela ysgolion; darparu ymyraethau llesiant cyffredinol ac wedi'u targedu; hyfforddi athrawon a staff eraill ysgolion ar lesiant plant; a chyflwyno gwasanaeth mewngymorth CAHMS ysgolion Cymru, lle mae ymarferwyr iechyd meddwl penodedig mewn ysgolion yn darparu gwaith ymgynghori, cysylltu, cynghori a hyfforddi i staff yr ysgol.

Mae cyd-awduro wrth graidd y Fframwaith, yn ogystal â sicrhau bod plant a phobl ifanc yn rhan annatod o ddatblygu strategaethau llesiant ysgolion. Rwy'n credu bod llysgenhadon llesiant a mentoriaid cymheiriaid eisoes wedi sefydlu mewn nifer o ysgolion, ac yn rhan werthfawr o gefnogi ein dysgwyr. Dylai mentrau o'r fath ffurfio rhan o asesiad yr ysgol o'i hanghenion llesiant a chymorth, fel sy'n ofynnol gan ein Fframwaith.

Byddwn yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language